**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 9:30 AM AR 24 EBRILL 2024 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mrs Dianne Bevan; Mr Frank Cuthbert; Ms Ginger Wiegand.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Christian Lovatt (Swyddog Cymorth Tîm).

**Gwesteion:** Kalwant Grewal (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC)); Shamala Govindasamy (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

**Amser Dechrau: 09:59**
**Amser Gorffen: 11.02**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

## 2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn am gynnydd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn sgil diwygiadau hwyr a gynigiwyd.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 4. Materion yn Codi

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael 3 chais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 15 Chwefror 2024 ac 16 Ebrill 2024.

4.3. **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol ar hyn o bryd ar gyfer Bro Morgannwg, Caerffili, Ceredigion, Abertawe, a Sir Benfro. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys mewn eitem agenda ar wahân.

4.4. **(Mater 3) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cadarnhau gyda Llywodraeth Cymru ei fod yn fodlon bwrw ymlaen â symud llety i CP2 a'i fod wedi gofyn i'r gwaith papur angenrheidiol gael ei gwblhau'n derfynol. Mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu grant cyfalaf £10k i gefnogi'r broses symud.

4.5. **(Mater 4) Nodwyd** bod ORS wedi rhannu fersiwn ddrafft o'r adroddiad. Bydd cyfarfod olaf o'r Grŵp Llywio yn cael ei gynnal i gwblhau'r adroddiad yn derfynol, a phan fydd wedi'i gytuno caiff ei gyhoeddi a'i rannu gyda rhanddeiliaid. O ganlyniad i'r argymhellion, cynigir bod is-bwyllgor yn cael ei ffurfio gyda 2 Gomisiynydd i ddechrau gweithio ar lunio'r Polisi Maint y Cyngor ar gyfer y Rhaglen Arolygon Etholiadol nesaf.

4.6. **(Mater 5) Nodwyd** bod fersiwn ddrafft o'r amcanion arfaethedig ar gyfer llythyr cylch gwaith 24/25 wedi cael ei rhannu gyda'r Comisiwn.

**Gweithredu:** Gwahodd ORS i gyflwyno eu canfyddiadau yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn a gwahodd aelodau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) i fynychu.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

5.1. **Nodwyd** nad oedd diweddariad gan fod y cyfarfod pontio wedi cael ei symud i fis Mai.

## 6. Y Flaenraglen Waith

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar y Flaenraglen Waith dyddiedig 17 Ebrill 2024 gan y Prif Weithredwr.

6.2. Rhoddwyd ystyriaeth i Opsiwn 1 y cynnig ar gyfer Recriwtio Comisiynwyr ac fe'i **cytunwyd** yn amodol ar rai mân newidiadau. Bydd y Comisiwn yn gweithio'n agos gyda'r Is-adran Noddi a'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o recriwtio Comisiynwyr ychwanegol, gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol.

6.3. **Nodwyd** bod 3 swydd-ddisgrifiad wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwerthuso Swydd, sef; Prif Weithredwr, Pennaeth Iechyd Democrataidd ac Uwch Reolwr Iechyd Democrataidd.

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb 2023-24

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb dyddiedig 5 Ebrill 2024 gan y Rheolwr Cyllid, a ddangosodd sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd y flwyddyn 2023-24.

**7.2.** **Nodwyd** y prif feysydd tanwariant a gorwariant, a'r esboniadau drostynt.

**7.3.** **Nodwyd** bod rhai cronfeydd wedi cael eu trosglwyddo ar draws sawl cyllideb i fynd i'r afael â rhywfaint o orwariant ar ddiwedd y flwyddyn.

**7.4.** Nododd yr aelodau sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2023-24 ar ddiwedd y flwyddyn, sef tanwariant o £12,289, yr oedd tua £250 ohono mewn perthynas â chyllid y Comisiwn Ffiniau i Gymru gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC).

## 8. Cyllideb 2024-25

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2024-25 dyddiedig 11 Ebrill 2024.

**8.2.** **Nodwyd** bod cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2024-25, sef £1,330,000, wedi cael ei chytuno gan Lywodraeth Cymru. Fe ddylai hyn gael ei gadarnhau yn eu Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2024-25 pan gaiff ei gyhoeddi.

**8.3.** **Nodwyd** bod cyllideb y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer 2024-25, sef £230,000, wedi cael ei chytuno gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC). Yn ogystal â hyn, mae £7,830 yn ddyledus i'r Comisiwn gan Gyngor Sir Ceredigion yn ymwneud ag anfoneb sy'n weddill ar gyfer adennill gwariant Arolwg Cymunedol 2023-24. Bydd y Comisiwn yn parhau i adennill gwariant Arolwg Cymunedol gan yr awdurdodau lleol drwy gydol 2024-25.

**8.4.** **Nodwyd** y bydd yr IRP yn talu am 7.5% o gostau cyflog y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, sy'n dod i £4,267.

**8.5.** **Nodwyd** mai cyfanswm y cyllid arian parod sydd ar gael i'r Comisiwn ar gyfer 2024-25 yw £1,584,242. Rhoddir dadansoddiad o ddyraniadau categorïau'r gyllideb yn Eitem 08.1. Mae'r dyraniadau hyn wedi'u seilio'n bennaf ar ofynion hysbys ynghyd â gwariant hanesyddol.

**8.6.** **Cytunodd** y Comisiynwyr ar y gyllideb ar gyfer 2024/25.

## 9. Rheoli Risg

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg CFfDLC dyddiedig 9 Ebrill 2024.

**9.2.** Rhoddwyd sylw i risg CR3 o gyfarfod y Comisiwn ar 31 Ionawr 2024 ynglŷn â'r symud i Barc Cathays a drafodwyd ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024. Yng

nghyfarfod 28 Chwefror, cafodd aelodau'r ARAC ddiweddariad ar symud llety gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Busnes a phenderfynasant gynnal cyfarfod ychwanegol o'r ARAC ym mis Mehefin i drafod y risgiau sy'n gysylltiedig â symud llety yn benodol.

**9.3.** **Nododd** y Comisiwn y Gofrestr Risg bresennol a **chytunodd** nad oedd angen rhagor o newidiadau ar yr adeg hon.

**Gweithredu:** Cyfarfod ARAC ychwanegol i'w gynnal ym mis Mehefin.

## 10. Cofrestr Risg Blaenraglen Waith CFfDLC

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg Blaenraglen Waith CFfDLC dyddiedig 12 Ebrill 2024.

**10.2.** **Nododd** y Comisiwn fod yr ARAC wedi adolygu Cofrestr Risg y Flaenraglen Waith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024 ac wedi cynnig bod y gofrestr yn cynnwys y llinell amser recriwtio arfaethedig ar gyfer penodi aelodau newydd.

**10.3.** **Cytunodd** y Comisiwn ar y Gofrestr Risg bresennol ac nad oedd angen rhagor o newidiadau ar yr adeg hon.

## 11. Adroddiad Cyfarfod yr ARAC dyddiedig 28 Chwefror 2024

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad cofnodion cyfarfod yr ARAC dyddiedig 28 Chwefror 2024.

**11.2.** **Nododd** a **chymeradwyodd** y Comisiwn gofnodion yr adroddiad.

## 12. Datganiad Llywodraethu Drafft

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Datganiad Llywodraethu Drafft 2023-24 CFfDLC dyddiedig 25 Mawrth 2024.

**12.2.** **Cytunodd** y Comisiwn y bydd fersiwn derfynol Datganiad Llywodraethu 2023-24 yn cael ei chynnwys yng nghyfrifon blynyddol y Comisiwn a'i chymeradwyo ar yr un pryd â llofnodi'r cyfrifon.

## 13. Adolygiad 2024 o'r Polisi Chwythu'r Chwiban

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar Adolygiad 2024 o'r Polisi Chwythu'r Chwiban dyddiedig 10 Ebrill 2024.

**13.2.** **Nododd** y Comisiwn fod yr adroddiad wedi cael ei nodi a'i gymeradwyo yng nghyfarfod diwethaf yr ARAC.

## 14. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**14.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 17 Ebrill 2024.

**14.2.** **Nodwyd** bod arolwg Bro Morgannwg wedi'i gwblhau, bellach. Rhoddwyd gwybodaeth i swyddogion y cyngor ar 12 Ebrill a chyhoeddwyd yr Argymhellion Terfynol ar 16 Ebrill 2024.

**14.3.** **Nodwyd** y bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi i swyddogion cyngor Caerffili ar 7 Mai ac y bydd yr Adroddiad Argymhellion Terfynol ar gyfer Caerffili yn cael ei gyhoeddi ar 9 Mai.

**14.4.** **Nodwyd** bod yr ymgynghoriad ar gynigion drafft Ceredigion ar agor ac y bydd yn cau ar 13 Mai.

**14.5.** **Nodwyd** y disgwylir i gynigion drafft Abertawe gael eu cyhoeddi ym mis Mai.

**14.6.** **Nodwyd** y disgwylir i gynigion drafft Sir Benfro gael eu cyhoeddi ym mis Mehefin.

## 15. Calendr Digwyddiadau

**15.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Calendr Digwyddiadau.

## 16. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

**16.1.** Ni nodwyd unrhyw fater arall perthnasol.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 22 Mai 2024